# TAFLEN BENDERFYNIAD AELOD UNIGOL O GABINET CYNGOR GWYNEDD

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD Y PENDERFYNIAD** | 27 Gorffennaf 2021 |
| **DYDDIAD CYHOEDDI'R PENDERFYNIAD** | 28 Gorffennaf 2021 |
| **DYDDIAD Y BYDD Y PENDERFYNIAD YN DOD I RYM** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25.1 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd. | 4 Awst 2021 |

**ENW A THEITL YR AELOD CABINET**

Y Cynghorydd Gareth Griffith, Aelod Cabinet Amgylchedd

**PWNC** Polisi Cyngor Gwynedd ar Ddodi Dyfais Atal Cerbyd Rhag Symud

**PENDERFYNIAD –**

I gymeradwyo Polisi Cyngor Gwynedd ar Ddodi Dyfais Atal Cerbyd Rhag Symud [Atodiad A] a mabwysiadu hawliau priodol i dowio cerbydau i ffwrdd a dodi dyfais ar gerbydau i'w hatal rhag symud (immobiliser), er mwyn ymdrin â cherbydau sydd yn parcio'n anghyfreithlon ac achosi rhwystr neu beryglon i ddefnyddwyr eraill o'r brifforddd. I roi sêl bendith i'r Pennaeth Adran Amgylchedd fwrw ymlaen a rhoi trefniadau yn eu lle petai'r pwerau gorfodi newydd yn cael eu hymarfer.

**RHESWM DROS YR ANGEN AM Y PENDERFYNIAD –**

Gweler yr Adroddiad Swyddog atodedig

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD-**

Ymgynghorwyd â –
Swyddogion Statudol Cyngor Gwynedd
Heddlu Gogledd Cymru a Pharc Cenedlaethol Eryri

Adroddir ar ganlyniadau'r ymgynghoriadau yn yr adroddiad atodedig

**TAFLEN BENDERFYNIAD AELOD UNIGOL O GABINET CYNGOR GWYNEDD – ADRODDIAD SWYDDOG**

| | |
|---|---|
| Enw a theitl yr Aelod/au Cabinet : | Cynghorydd Gareth Wyn Griffith<br>Aelod Cabinet Amgylchedd |
| Enw a theitl Awdur yr Adroddiad : | Dafydd Wyn Williams – Pennaeth Adran Amgylchedd |
| Dyddiad y Cymerwyd y Penderfyniad: | 27 Gorffennaf 2021 |
| Llofnod yr Aelod/au Cabinet : | |

**Pwnc : Polisi Cyngor Gwynedd ar Ddodi Dyfais Atal Cerbyd Rhag Symud**

**Argymhelliad ar gyfer y Penderfyniad :**

I gymeradwyo Polisi Cyngor Gwynedd ar Ddodi Dyfais Atal Cerbyd Rhag Symud [Atodiad A] a mabwysiadu hawliau priodol i dowio cerbydau i ffwrdd a dodi dyfais ar gerbydau i'w hatal rhag symud (immobiliser), er mwyn ymdrin â cherbydau sydd yn parcio'n anghyfreithlon ac achosi rhwystr neu beryglon i ddefnyddwyr eraill o'r briffordd.

I roi sêl bendith i'r Pennaeth Adran Amgylchedd fwrw ymlaen a rhoi trefniadau yn eu lle petai'r pwerau gorfodi newydd yn cael eu hymarfer.

**Rheswm dros yr angen am y Penderfyniad:**

Mae modurwyr sydd yn penderfynu parcio'n anghyfreithlon a diystyriol drwy greu peryglon i ddefnyddwyr eraill yn broblem gyffredinol drwy Wynedd a thu hwnt.

Yn anffodus, mae sgil effaith Cofid 19 wedi uchafu'r problemau parcio ledled y Sir, oherwydd cynnydd sylweddol yn y nifer ymwelwyr a phrinder llecynnau parcio.

Profwyd problemau enfawr y llynedd wrth i gannoedd o fodurwyr deithio i gyfeiriad Pen y Pass gyda'r bwriad i grwydro'r mynyddoedd, a phenderfynu parcio ar y briffordd ar ôl sylweddoli bod y maes parcio'n orlawn.

Mae Pen y Pass yn cael ei lywodraethu gan gyfyngiadau parcio ar ffurf clirffordd. Fel y gwyddoch, mae'r ffordd dan sylw yn gul gyda llif traffig trwm yn ddyddiol, gan gynnwys beicwyr a gwasanaeth bws lleol sydd yn rhedeg drwodd yn aml. Roedd cerbydau yn parcio'n anghyfreithlon yn creu risg sylweddol i gerddwyr yn ogystal oherwydd y rheidrwydd iddynt gerdded ar hyd y briffordd.

**Rhesymeg a chyfiawnhad dros gyrraedd y Penderfyniad**

Fel i mi grybwyll uchod, roedd parcio anghyfreithlon yn hynod broblemus y llynedd ac er gwaethaf ymdrechion Swyddogion Gorfodaeth Parcio'r Cyngor i ddirwyo'r modurwyr, nid oedd yr ymdrech hyn yn gwaredu o'r peryglon yn syth bin yn anffodus.

Roedd rhai o'r modurwyr hyd ên oed yn croesawu'r ddirwy ac yn credu fod £35 yn rhesymol am ddiwrnod allan mewn lleoliad mor hardd. Wrth gwrs, roedd hyn yn annerbyniol.

Bu i'r Cyngor gydweithio'n agos gyda Heddlu Gogledd Cymru a Pharc Cenedlaethol Eryri er mwyn cymryd camau priodol i daclo'r broblem ym Mhen y Pass ac ar hyd y A4086 drwy rannu adnoddau i fonitro'n agos a defnyddio pwerau'r Heddlu i dowio cerbydau i ffwrdd. Drwy gyhoeddusrwydd cadarn, monitro rheolaidd a gweithredu'n ddi-lol, daeth y broblem o dan reolaeth.

Mae cyhoeddusrwydd cadarn a monitro rheolaidd yn parhau i ddigwydd eleni ac er bod y sefyllfa wedi gwella'n sylweddol, credwn ei bod yn gynamserol i feddwl fod y broblem wedi diflannu'n gyfan gwbl.

Mae parodrwydd Heddlu Gogledd Cymru i gynorthwyo'r Cyngor gyda thowio i ffwrdd wedi bod yn amhrisiadwy, er hyn, maent wedi datgan nad ydi'n ymarferol bosibl i'r trefniadau presennol barhau hir dymor oherwydd prinder Swyddogion yr Heddlu ar benwythnosau a'r angen i ymdrin â blaenoriaethau eraill.

Credwn felly ei bod yn synhwyrol i'r Cyngor sefydlu'r polisi arfaethedig a mabwysiadu hawliau priodol o dan Adran 79 o'r Ddeddf Rheoli Traffig 2004 er mwyn ymdrin â cherbydau sydd yn parcio'n anghyfreithlon ac achosi rhwystr neu beryglon i ddefnyddwyr eraill o'r brifforddd, heb orfod dibynnu ar adnoddau'r gwasanaethau brys.

Mae'r pŵer ar gyfer dodi dyfais ar gerbydau i'w hatal rhag symud (clamp) a phŵer i dowio cerbydau i ffwrdd yn dod law yn llaw. Er hyn, credwn mai'r pŵer i dowio cerbydau i ffwrdd mewn amgylchiadau arbennig iawn y byddwn yn ei ymarfer.

Yn nhermau ymarferoldeb y broses, ein bwriad yw mabwysiadu'r un drefn a Heddlu Gogledd Cymru sydd wedi cytundebu gyda garej leol. Petai'r Swyddogion Gorfodaeth Parcio yn dod ar draws cerbyd sydd wedi parcio'n anghyfreithlon ac yn achosi perygl, byddent yn cysylltu'n uniongyrchol gyda'r garej a gwneud trefniadau iddynt gasglu a chadw'r cerbyd mewn compownd addas a diogel. Bydd perchennog y cerbyd angen talu'r holl ffioedd sydd yn ymwneud ag ymdrechion y Cyngor a'r garej cyn i'r cerbyd gael ei ryddhau.

Golygai hyn fod y broses sydd yn gysylltiedig â thowio cerbydau i ffwrdd yn hunan-gyllidol a'r risg i'r Cyngor yn finimal.

**Unrhyw ymgynghoriadau a gynhaliwyd cyn gwneud y Penderfyniad :**

Ymgynghorwyd a Heddlu Gogledd Cymru a Parc Cenedlaethol Eryri

---

**Prif Swyddog Cyllid:** Deallaf bydd y broses yma'n hunan-gynhaliol, heb unrhyw gost ychwanegol i'r Cyngor

**Swyddog Monitro:** Mae'r mater wedi bod yn destun arweiniad gan y Gwasanaethau Cyfreithiol . Dim sylwadau i'w hychwanegi o safbwynt priodoldeb.

---

**Atodiadau**

Atodiad A Polisi Cyngor Gwynedd ar Ddodi Dyfais Atal Cerbyd Rhag Symud

Polisi Cyngor Gwynedd wrth i'w Swyddog Gorfodaeth Sifil ddodi dyfais atal cerbyd rhag symud.

Civil Enforcement of Road Traffic Contraventions (General Provisions) (Wales) Regulations 2013/363 (y Rheoliadau)

Statutory Guidance to Local Authorities on The Civil Enforcement of Parking Restrictions; March 2010 (y Canllaw)

Y mae adran 79 Deddf Rheoli Traffig 2004 wedi rhoi hawl i'r Gweinidogion Cymreig wneud rheoliadau sy'n awdurdodi awdurdodau traffig, fel Cyngor Gwynedd (y Cyngor) orfodi parcio cerbyd drwy ddodi dyfais atal ar gerbydau. Yn sgil yr hawl uchod fe wnaethpwyd y Rheoliadau.

Y mae'r papur yma yn edrych ar un ffordd o orfodi parcio, a hynny yw'r hawl i roi dyfais atal cerbyd rhag symud (dyfais) ar gerbyd. Y mae paragraff 58 o'r Canllaw yn gwneud hi'n rheidrwydd ar Gyngor Gwynedd (y Cyngor) fel awdurdod traffig perthnasol i lunio polisi i ddangos dan ba amgylchiadau y bydd y Cyngor yn defnyddio ei bŵer i roi'r ddyfais ar gerbyd sy'n tramgwyddo.

Wrth lunio'r polisi hwn y mae'r Cyngor am weithredu yn ôl awgrymiadau a welir ym mharagraff 57 o'r Canllaw.

Dan Reoliad 12 (1) o'r Rheoliadau cyn rhoi dyfais mae'n rhaid i'r Cyngor yn gyntaf rhoi rhybudd mewn modd penodedig yn dangos bod tramgwyddo wedi digwydd ac mae yna gosb i hyn, sef yr "Penalty Charge Notice" (PCN).

Pe fyddai'r cerbyd wedi ei barcio mewn man sy'n caniatáu parcio ni ellir rhoi'r ddyfais na symud y car hyd nes o leiaf 15 munud fynd heibio ar ôl amser rhoi'r PCN.

Y mae'r hawl i gymryd y cerbyd i ffwrdd yn gynwysedig â'r hawl dodi dyfais ar gerbyd.

Cyn i'r Swyddog Gorfodaeth Sifil rhoi dyfais ar y cerbyd mae'n rhaid i'r swyddog roi rhybudd ar y cerbyd. Y mae Rheoliad 12 (2) o'r Rheoliadau'n dweud beth sydd rhaid ei roi yn y rhybudd.. Dim ond trwy'r awdurdod y Swyddog Gorfodi Sifil gall y ddyfais cael ei thynnu i ffwrdd.

Pe fyddai cerbyd yn creu "hazard" neu rwystr wedyn dylai'r Cyngor yn symud y cerbyd yn syth  yn hytrach na roi dyfais ar y cerbyd.

Pe fyddai'r cerbyd wedi ei barcio mewn man lle gwaherddir parcio, ar linellau melyn dwbl er enghraifft, gellir symud y cerbyd yn syth ar ôl i'r PCN cael ei roi ar y cerbyd.

Ni ellir rhoi dyfais ar gerbyd sy'n dangos bathodyn person anabl, neu lle ddangosir bod consesiwn person anabl yn bodoli.

<u>Polisi'r Cyngor o roi dyfais ar gerbyd</u>

Mi fydd y Cyngor yn araf wrth ddefnyddio'r hawl o roi dyfais ar gerbyd.  Y mae'r Cyngor yn cydnabod y byddant yn gweithredu

o dan amgylchiadau cyfyngedig; er enghraifft pan mae’r un cerbyd yn torri’r rheolau mwy nag unwaith ac nad yw’n bosibl derbyn taliadau cosb oherwydd nad yw'r person sy'n gyfrifol am y cerbyd wedi ei gofrestru gyda’r awdurdod trwyddedu, yr DVLA.

Pe fyddai’r cerbyd yn creu rhwystr neu “hazard” wedyn byddai’r Cyngor yn symud y cerbyd yn hytrach na rhoi dyfais.  Y bydd y Cyngor yn rhoi’r ddyfais dan amgylchiadau pan mae’r weithred o roi dyfais yn rhoi manteision rheolaeth traffig clir i’r awdurdod.